## Adar Ysglyfaethus

Cafwyd ymweliad gan ganolfan adar ysglyfaethus Manordeifi ger Llechryd, Sir Benfro i'r ysgol eto eleni. Gwrandawodd y plant yn astud tra roedd Mike yn dweud hanes pob aderyn o'r dylluan fach i'r dylluan fawr Ewropeaidd. Mwynhawyd yr ymweliad yn fawr iawn. Cafwyd cyfle i dynnu lluniau o'r adar gan drafod ymhellach gyda'r athro yn y dosbarth.

## Diolchgarwch

Cynhaliwyd ein gwasanaeth diolchgarwch yn dilyn ymweliad cynrychiolydd Christmas Child â'r ysgol. Paratowyd cyfraniad gan bob dosbarth a chafwyd naws arbennig. Rhoddwyd y casgliad eleni at ASTHMA. Diolch i bawb a gyfrannodd at yr achos.

## Urdd

Mae sesiynau'r Urdd i'r plant dosbarthiadau iau ar nos Lun wedi cychwyn ar ôl hanner tymor. Ein gwraig wadd gyntaf oedd Linda Healy a ddaeth draw gyda'i gitâr i gynnal Jambori. Mwynhawyd y sesiwn o ganu a meimio yn fawr iawn. Diolch yn fawr Linda.

## Cwrs

Cafodd pedair o staff yr ysgol fynychu cwrs "Cymorth Cyntaf" yn ysgol Rhydypennau yn ddiweddar. Bu canolbwyntio mawr ac ymarferiadau lu drwy'r dydd. Siawns y bydd un allan o bedwar yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng o hyn allan! Bu'r cwrs yn un buddiol a gwerthfawr iawn i ni.